Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Martin Buckle
Ysgrifennydd Sewta a Rheolwr Rhaglen
Cynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru
Canolfan Maendy
Ffordd y Goron
Caerdydd. CF14 3AJ

**YMGYNGHORIAD AR STRATEGAETH RHWYDWAITH BYSIAU A CHLUDIANT CYMUNEDOL RHANBARTHOL CYNGHRAIR TRAFNIDIAETH DE-DDWYRAIN CYMRU (SEWTA)**

Annwyl Syr/Madam

Diolch i chi am roi cyfle i Cyfoeth Naturiol Cymru roi sylwadau ar ddrafft Strategaeth Rhwydwaith Bysiau a Chludiant Cymunedol Rhanbarthol ddrafft SEWTA. O 1 Ebrill 2013, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyfuno gwaith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru, yn ogystal â rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru. Ein pwrpas yw sicrhau y bydd adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio yn gynaliadwy nawr ac yn y dyfodol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu'r Strategaeth hon, sy'n galluogi integreiddio pellach wrth gynllunio a darparu gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi'r mentrau hynny sy'n blaenoriaethu, darparu, hyrwyddo, integreiddio a gwella ffyrdd cynaliadwy o deithio. Fel y cyfryw, rydym yn gwerthfawrogi bwriad y Strategaeth i nodi canlyniadau sy'n flaenoriaeth, gan sicrhau bod y buddsoddiad yn talu ar ei ganfed.

Tra'n croesawu'r Strategaeth yn fras, mae gennym rai sylwadau rydym yn gobeithio a fydd o ddefnydd i chi.

Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu cyswllt yn y dyfodol gyda SEWTA, er enghraifft, i nodi'r potensial ar gyfer cysylltu llwybrau bws i gyfleusterau hamdden awyr agored. I drefnu'r cyswllt hwn, ac am eglurhad ynghylch unrhyw un o'r pwyntiau a wnaed yn yr ymateb, mae croeso i chi gysylltu â Helen Fletcher yn ein swyddfa yn Llandarcy yn y lle cyntaf.

Yr eiddoch yn gywir,

Graham Hillier
**Cyfarwyddwr Gweithredol y De**

E-bost/Email: graham.hillier@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Ffôn/Tel.: 02920 468879

**SYLWADAU MANWL AR STRATEGAETH RHWYDWAITH BYSIAU A CHLUDIANT CYMUNEDOL RHANBARTHOL SEWTA**

**Amcan 1 - darparu a hyrwyddo cysylltiadau bws a thrafnidiaeth gymunedol diogel, deniadol a hygyrch i ganolfannau a chyrchfannau rhanbarthol allweddol**
Nid yw'n glir beth sy'n dod o dan 'cyrchfannau allweddol'. Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu ehangu cwmpas 'cyrchfannau allweddol' i gynnwys ystyried rhoi blaenoriaeth i gludiant i leoliadau sy'n cynnig cyfleoedd sylweddol ar gyfer hamdden awyr agored. Mae gan gludiant i deithwyr rôl amhrisiadwy gan roi mynediad i gefn gwlad a'r potensial sy'n deillio o hynny ar gyfer gwell iechyd a lles, fel y cydnabyddir yn Strategaeth Creu Cymru Egnïol Llywodraeth Cymru[1]. Yn ogystal, dylid cydnabod y gall cysylltu trafnidiaeth gyhoeddus â hamdden awyr agored gyfrannu hefyd at fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol, trwy roi cyfle i aelwydydd di-gar fwynhau manteision yr amgylchedd naturiol.

Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn croesawu integreiddio’r Strategaeth hon a Chynlluniau Datblygu Lleol o fewn rhanbarth SEWTA. Mae angen i Gynlluniau Datblygu Lleol bennu safleoedd ar gyfer datblygu i gyd-fynd â rhwydweithiau presennol i deithwyr, yn ogystal â chynllunio i wella cyfleusterau lle y mae prinder cludiant i deithwyr ar hyn o bryd. Mae'r math hwn o ddatblygiad integredig yn hollbwysig er mwyn sicrhau llai o alw am deithio, gan helpu i ategu newid ymddygiad ac i gefnogi symudiad moddol o'r car preifat i gludiant teithwyr.

Os nad ydynt eisoes yn rhan o'r broses ymgysylltu â rhanddeiliaid, rydym yn awgrymu y byddai'n ddefnyddiol iawn i gynnwys Byrddau Gwasanaethau Lleol perthnasol (BGLlau) mewn trafodaethau am ddatblygiad y Strategaeth. Mae Byrddau Gwasanaethau Lleol, sy'n cynnwys arweinwyr sefydliadau allweddol yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ac mae mynediad at gludiant yn aml yn thema sy’n codi ei phen droeon. Mae Cynllun Integredig Sengl Sir Fynwy, er enghraifft, yn rhoi blaenoriaeth i 'fynediad da a symudedd'.

**3.5.25 Datblygu Llwybrau**
Mae’n galondid i ni fod y strategaeth yn cydnabod yr angen i bob asiantaeth weithio gyda'i gilydd i nodi cyfleoedd am lwybrau sy'n adlewyrchu newid patrymau teithio. Fel rhan o integreiddio’r rhwydwaith, byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at drafodaeth am ddatblygiad strategol llwybrau newydd sy'n cysylltu â chyfleusterau hamdden awyr agored lle bo hynny'n briodol. Gall cyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored wneud cyfraniad allweddol at gyflawni agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd meddwl a chorfforol a lles. Mae cyfleoedd o'r fath yn cynnwys hawliau tramwy cyhoeddus, Llwybrau Cenedlaethol, llwybr arfordir Cymru, llwybrau beicio,

1. *Creu Cymru Egnïol*, Llywodraeth Cymru 2011.

gwarchodfeydd natur a chanolfannau ymwelwyr. Yn ogystal, byddem yn annog SEWTA i ystyried cyfleoedd i ddarparu cyfleusterau cludo beiciau ar rai llwybrau cludiant cyhoeddus er mwyn hwyluso gweithgareddau hamdden egnïol.

**3.6.10 Cyfnewidfeydd**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi mynediad a pharcio ar gyfer beiciau mewn cyfnewidfeydd bysiau. Byddem yn annog integreiddio yn yr achos hwn gyda Bil Teithio Llesol (Cymru), sy'n ceisio annog Awdurdodau Lleol i wella cyfleusterau a llwybrau ar gyfer beicwyr (a cherddwyr).

**3.6.40 Cludiant twristiaeth**

BCT44 - Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu'r cyfle i gymryd rhan mewn trafodaethau am ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus sy'n galluogi pobl i gyrraedd a mwynhau hamdden awyr agored a chyfleusterau twristiaeth gynaliadwy.

**3.7.7 Materion amgylcheddol**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu'r ystyriaeth a roddir i faterion amgylcheddol. Rydym yn awgrymu y gellid ei hymestyn i gynnwys ystyriaeth o’r 'seilwaith gwyrdd' yn y broses gynllunio, hynny yw, cynllunio sy'n gweithio ac o fudd i'r amgylchedd naturiol yr un pryd.

**Sylwadau ychwanegol**

Byddai'n fuddiol cynnwys gwybodaeth am ymwneud SEWTA ag unrhyw waith partneriaeth i hyrwyddo newid ymddygiad sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, yn enwedig newid moddol o'r car preifat i drafnidiaeth bws.

1. *Creu Cymru Egnïol*, Llywodraeth Cymru 2011.